

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
08/10/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

Increased Energy Costs

Y Cynnydd Mewn Costau Ynni

Q10 Jonathan Morgan: Will the Minister make a statement on the impact of increased energy costs to the NHS? OAQ(3)0707(HSS)

C10 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y cynnydd mewn costau ynni ar y GIG? OAQ(3)0707(HSS)

Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): NHS trust expenditure on energy, namely gas and electricity, was £28.5 million in 2007-08. I expect that figure to increase this year in view of current market conditions. Welsh Health Supplies negotiates energy prices for most Welsh NHS trusts and uses a flexible purchasing strategy to lessen the impact of price rises.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Yn 2007-08, £28.5 miliwn oedd gwariant ymddiriedolaethau'r GIG ar ynni, hynny yw nwy a thrydan. Yr wyf yn disgwyl i'r ffigur hwn gynyddu eleni yn sgîl sefyllfa bresennol y farchnad. Mae Cyflenwadau Iechyd Cymru yn negodi prisiau ynni ar gyfer y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau GIG Cymru ac yn defnyddio strategaeth brynu hyblyg i leihau effaith y cynnydd mewn prisiau.

Organ Donation

Rhoi Organau

Q11 Lesley Griffiths: What steps is the Welsh Assembly Government taking to promote organ donation in Wales? OAQ(3)0684(HSS)

C11 Lesley Griffiths: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i hyrwyddo rhoi organau yng Nghymru? OAQ(3)0684(HSS)

Edwina Hart: We have worked in partnership with the voluntary sector to fund the successful Donate Wales—Tell a Loved One publicity campaign, contributing £125,000. An all-Wales group is being

Edwina Hart: Yr ydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol i ariannu'r ymgyrch gyhoeddusrwydd lwyddiannus Rhodd Cymru—Dywed wrth Rywun Agos, gan gyfrannu £125,000. Mae

established to take forward the UK organ donation taskforce recommendations to increase numbers of organs available.

grŵp Cymru gyfan yn cael ei sefydlu i weithredu argymhellion gweithlu rhoi organau'r DU er mwyn cynyddu nifer yr organau sydd ar gael.

Caniatâd Tybiedig ar gyfer Rhoi Organau

Presumed Consent for Organ Donation

C12 Nerys Evans: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau? OAQ(3)0704(HSS)

Q12 Nerys Evans: What recent discussions has the Minister had regarding presumed consent for organ donation? OAQ(3)0704(HSS)

Edwina Hart: I have had many discussions on presumed consent. I have made it clear that I want to capture public opinion on this issue, and I am developing plans on how best to do that.

Edwina Hart: Yr wyf wedi cael nifer o drafodaethau ynghylch caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau. Yr wyf wedi datgan yn glir fy mod eisiau casglu sylwadau'r cyhoedd ar y mater hwn, ac yr wyf yn datblygu cynlluniau ar y ffordd orau o wneud hynny.

Impact on Morryston Hospital of the Recent Review into Neurosciences

Effaith yr Adolygiad Diweddar i Niwrowyddorau ar Ysbyty Treforys

Q13 Peter Black: What will be the impact on Morryston Hospital of the recent review into neurosciences? OAQ(3)0716(HSS)

C13 Peter Black: Beth fydd effaith yr adolygiad diweddar i niwrowyddorau ar Ysbyty Treforys? OAQ(3)0716(HSS)

Edwina Hart: It will be for the implementation planning group to advise me on how the recommendations will be implemented and what impact, if any, that will have on Morryston Hospital. The review does recommend improving access to spinal surgery and neurorehabilitation in Swansea.

Edwina Hart: Mater i'r grŵp cynllunio gweithredu fydd fy nghynghori ar sut y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu a pha effaith, os o gwbl, y bydd hynny yn ei chael ar Ysbyty Treforys. Mae'r adolygiad yn argymhell gwella mynediad at lawdriniaeth asgwrn y cefn a gwasanaethau adfer niwrolegol yn Abertawe.

Gwasanaethau Awtistiaeth

Autism Services

C14 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau awtistiaeth yng Nghymru? OAQ(3)0701(HSS)

Q14 David Lloyd: Will the Minister make a statement on autism services in Wales? OAQ(3)0701(HSS)

Edwina Hart: Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gael ar gyfer awtistiaeth yng Nghymru yn y sectorau statudol a gwirfoddol.

Edwina Hart: There are a variety of services available on autism in Wales both in the statutory and voluntary sectors.

Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Questions to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport

Regeneration in Ogmore

Q10 Janice Gregory: What are the Welsh Assembly Government's priorities for regeneration in the Ogmore area? OAQ(3)0702(ECT)

The Deputy Minister for Regeneration (Leighton Andrews): In line with Wales as a whole, the Welsh Assembly Government is committed to addressing regeneration in Ogmore on a holistic basis against clear targets. Relevant projects include the Maesteg town improvement grant programme.

Adfywio Ardal Ogwr

C10 Janice Gregory: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adfywio ardal Ogwr? OAQ(3)0702(ECT)

Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews): Yn unol ag ar gyfer Cymru gyfan, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i fynd ati i adfywio Ogwr mewn ffordd holistaidd ar sail targedau clir. Ymhlith y prosiectau perthnasol y mae rhaglen grant gwella tref Maesteg.

Transport Infrastructure

Q11 Alun Davies: Will the Minister make a statement on his future plans for transport infrastructure throughout Wales? OAQ(3)0717(ECT)

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): My plan for improving transport infrastructure is set out in the Wales transport strategy, 'Connecting the Nation'. More detailed implementation will follow in the national transport plan and the consortia's regional transport plans.

Seilwaith Trafnidiaeth

C11 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau i'r dyfodol ar gyfer seilwaith trafndiaeth ledled Cymru? OAQ(3)0717(ECT)

Y Dirprwy Prif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Mae fy nghynllun ar gyfer gwella'r seilwaith drafndiaeth wedi'i amlinellu yn strategaeth drafndiaeth Cymru, 'Cysylltu'r Genedl'. Nodir y camau gweithredu mwy manwl yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol ac yng nghynlluniau trafndiaeth rhanbarthol y consortia.

Gwasanaethau Bysiau

C12 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau bysiau yn y de-orllewin? OAQ(3)0696(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ar gyfer 2008-09, yr wyf yn darparu bron i £8 miliwn ar ffurf grant trafndiaeth, gan gynnwys £1.5 miliwn ar gyfer cyfnewidfa'r Cwadrant. Yn ogystal, yr wyf yn darparu £1.7 miliwn o'r grant gwasanaethau trafndiaeth lleol. Bydd y cyllid hwn yn helpu'r gwasanaethau bws yn yr ardal.

Bus Services

Q12 David Lloyd: Will the Minister make a statement on bus services in south-west Wales? OAQ(3)0696(ECT)

The Deputy First Minister: For 2008-09, I am providing nearly £8 million in transport grant, including £1.5 million for the Quadrant interchange. In addition, I am providing £1.7 million from the local transport services grant. This funding will assist bus services in the area.

Regeneration Initiatives in Swansea East

Cynlluniau Adfywio yn Nwyrain Abertawe

Q14 Val Lloyd: Will the Minister make a statement on regeneration initiatives in Swansea East? OAQ(3)0674(ECT)

The Deputy First Minister: We are supporting a broad range of regeneration projects across Swansea East, including the city centre regeneration framework, SA1 Swansea waterfront, Fabian Way gateway and Swansea vale, as well as working with local communities.

C14 Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau adfywio yn Nwyrain Abertawe? OAQ(3)0674(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Rydym yn cefnogi ystod eang o brosiectau adfywio ar draws Dwyrain Abertawe, gan gynnwys Fframwaith Adfywio Canol y Dref, SA1 glannau Abertawe, porth Heol Fabian a bro Abertawe, ac yr ydym hefyd yn cydweithio â chymunedau lleol.